# YMWELIADAU Â SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd W.T. Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, K.P. Hughes, T. Victor Hughes, Raymond Jones, Richard O. Jones, |
| **WRTH LAW:** | Rheoli Datblygu – Arweinydd Tîm (NJ),<br>Arweinydd Tîm Gorfodaeth (JBR). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ann Griffith |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr R. Meirion Jones (Eitemau 1 & 3), A.W. Mummery (Eitem 3) |

---

1. **41C66G/RE - Cais llawn ar gyfer codi un twrbin wynt gydag uchder hwb hyd at uchafswm o 24.8m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 19.2m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 34.5m, creu trac fynedfa ynghyd â chodi cabinet storio offer ar dir yn Marchynys, Pennmynydd**

   Edrychodd yr Aelodau ar y safle ei hun mewn perthynas â'r dirwedd leol a'r eiddo oddi amgylch oedd wedi eu nodi gan y swyddog. Mewn taith o amgylch y safle fe edrychodd yr Aelodau wedyn ar y safle o bedair edrychfan wahanol ar rwydwaith y ffyrdd lleol oedd wedi eu nodi yn yr asesiad effaith weledol ac ar y dirwedd a gyflwynwyd gan yr asiantiaid a chan gyfeirio at y delweddau gweledol oedd wedi eu cyflwyno ynddo.

2. **17C44M/MIN - Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatau yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio 17C44J i amrywio amod (10) er mwyn galluogi cyflwyno manylion o sgrin i'r balconi cyn bod neb yn byw yn yr annedd yn 6 Gerddi Hafod Lon, Llandegfan.**

   Eglurodd y Swyddog bod yr annedd a'r balconi wedi derbyn caniatâd cynllunio gydag amod bod manylion am sgrin y balconi yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac yn derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig cyn i unrhyw waith ddechrau.

   Oherwydd bod y gwaith wedi dechrau cyn i'r manylion gael eu cyflwyno a'u cytuno, roedd y cais cyfredol felly yn un am gael gwneud newid bychan i amrywio'r amod i ganiatáu i'r manylion angenrheidiol gael eu cyflwyno cyn i rywun fyw yn yr annedd. Gan nad oedd yn cael ei ragweld y byddai unrhyw faterion yn debygol o godi hyd nes y byddai rhywun yn byw yn yr annedd fe gadarnhaodd y swyddog nad oedd gan yr Adran Gynllunio unrhyw wrthwynebiad i amrywio'r amod.

   Edrychodd yr Aelodau ar gefn yr annedd, oedd ar amser yr ymweliad wedi ei gwblhau yn sylweddol o ran ei strwythur, ac o gongl y plot cyfagos.

3. **31C419A Cais amlinellol gyda holl faterion wedi eu cadw yn ôl ar gyfer codi 2 annedd ar dir yn Hafod y Bryn, Llanfairpwll**

   Edrychodd yr Aelodau ar ardd Hafod y Bryn lle bwriedir codi'r ddwy annedd, gan nodi lleoliad yr eiddo cyfagos yn ogystal â'r fynedfa bresennol i'r annedd. Edrychwyd wedyn ar y fynedfa newydd arfaethedig o'r stad gyfagos yn ogystal â ffordd bresennol y stad a'r trefniadau parcio a gosodiad

ac agosrwydd yr anheddau presennol ger y safle. Edrychwyd ar gyffordd y fynedfa wrth adael y safle.

**Y CYNGHORYDD W.T. HUGHES**
**CADEIRYDD**